

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
DYDDIAD	15 Tachwedd 2016
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheolaethol yr Harbwr
AWDUR	Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig

1. Cyflwyniad

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr Harbwr ac i dderbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion yn ymwneud ac Harbwr Aberdyfi.
- 1.2 Pwrpas yr adroddiad yw cyflwyno diweddariad cryno i sylw'r Pwyllgor ar faterion yr Harbwr am y cyfnod Mawrth 2016 hyd at Hydref 2016.

2. Harbwr Aberdyfi

- 2.1 Yn 2016/17 roedd niferoedd cychod ar angorfeydd yn yr Harbwr fel a ganlyn; -

Roedd cyfanswm 79 cwch ar angorfa flynyddol yn 2016. Mae hyn yn cymharu gyda 77 cwch a fu ar angorfa yn 2015. Mae yn galonogol nodi fod 2 cwch wedi dychwelyd i Aberdyfi yn 2016.
- 2.2 Ar y cyfan, wrth gymharu holl harbyrau Cyngor Gwynedd gwelwyd lleihad bychan mewn nifer cwsmeriaid dros y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys Hafan Pwllheli. Yr unig eithriad o gysondeb yn y nifer gychod ar angorfeydd oedd yn Noc Fictoria yng Nghaernarfon.
- 2.3 O'r nifer cychod sydd ar angorfa yn yr Harbwr mae 67% yn gychod pwer gyda 33% yn gychod Hwyllo. Mae 60% o'r cwsmeriaid yn breswyl yng Ngwynedd gyda 32% yn breswyl tu allan y sir.
- 2.4 Cofrestrwyd 1001 o Gychod Pwer yng Ngwynedd yn 2016 sydd yn cymharu gydag 989 a fu wedi cofrestru yn 2015. Roedd 57 cwch pwer wedi cofrestru yn harbwr Aberdyfi ac mae hyn yn cymharu gyda 52 cwch a fu wedi cofrestru yn 2015. Cofrestrwyd 7 Cwch Pwer yn Tywyn gyda 3 wedi cofrestru yn 2015.
- 2.5 Cofrestrwyd 729 o Fadau Dwr Personol yng Ngwynedd yn 2016. Cymharai hyn gydag 699 a fu wedi cofrestru yn 2015. Yn Harbwr Aberdyfi fe gofrestrwyd 29 Bad Dwr Personol ac mae hyn yn cymharu gydag 23 Bad Dwr Personol a fu wedi cofrestru yn 2015. Cofrestrwyd 4 Bad Dwr Personol yn Tywyn gyda 1 wedi cofrestru yn 2015.

3. Cod Diogelwch Morwrol

- 3.1 Mae copi gwreiddiol o'r Cod Diogelwch Morwrol eisoes wedi ei ddosbarthu i holl Aelodau'r Pwyllgor ac mae hefyd ar gael ar safle we Cyngor Gwynedd. Mae'r Uwch Swyddog Harbyrau yn adolygu'r Cod Diogelwch yn rheolaidd. Rydym yn mawr obeithio bydd Uwch Arolygydd Gwylwyr y Glannau yn ymweld â'r Cyngor yn fuan yn 2017 er archwilio'r Cod Diogelwch a chyflwyno adborth ar y Cod sydd yn berthnasol i harbyrau bwrdeistrefol Cyngor Gwynedd. Deellir bydd yr archwiliwr yn ymweld â pop Harbwr yng Ngwynedd ac yn treillio sawl diwrnod yn archwilio'r harbyrau. Rhagwelir bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgorau Harbwr yn dilyn ymweliad yr archwiliwr.
- 3.2 Er bod y Cod Diogelwch yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y gwasanaeth mae yn anrffod derbyn sylwadau a barn y Pwyllgor Ymgynghorol ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac i dderbyn sylwadau ar ei chynnwys fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu fel bod yn berthnasol i Weithgareddau, cymhorthyddion mordwyo, diogelwch a gwaith Harbwr Aberdyfi.
- 3.3 Nid oes unrhyw fater neu achos o bryder wedi ei gyflwyno at sylw'r gwasanaeth yn ystod 2016 sydd yn gysylltiedig a cyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Harbwr.

4. Materion Gweithredol

4.1 Mordwyo

- 4.1.1 Cafwyd archwiliad manwl gan archwilwyr Awdurdod Goleudai Ty'r Drindod ar y 26ain Gorffennaf 2016. Mewn cymhariaeth ac adroddiadau blaenorol roedd adroddiad 2016 yn cadarnhau gwelliant yng nghyflwr a lleoliadau Cymhorthion Mordwyo Harbwr Aberdyfi.
- 4.1.2 Mae'r archwiliwr wedi tynnu sylw fod Cymhorthydd Mordwyo N-02909, sef cymhorthydd mordwyo morglawdd Tywyn angen sylw brys gan na fod ar safle. Mae'r Gwasanaeth wedi tynnu sylw Ymgynghoriaeth Gwynedd i'r diffyg. Rhagwelir bydd yn cael ei ail leoli mor fuan a fydd bosibl yn 2017.
- 4.1.3 Mae rhaglen waith cynnal a chadw'r Cymhorthion Mordwyo'r Harbwr wedi ei gwblhau a hyn yn unol â chaniatâd, cyfarwyddwyd ac arweiniad y Pwyllgor Ymgynghorol. Fe fydd diweddariad o'r sefyllfa bresennol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau gan y Prif Swyddog Harbyrau yn y cyfarfod.
- 4.1.4 Mae 2 Rybudd i Forwyr mewn grym yn harbwr Aberdyfi. Mae'r rhain ar gyfer Bar Bwi Rhif 1 - ddim ar ei safle (rhybudd rhif 10.) Cymhorthydd Mordwyo Arbenig (Special Mark) ddim ar ei safle (rhybudd rhif 11.) Mae'r Gwasanaeth wedi comisiynu contractwr i ymgymryd â'r gwaith.

4.2 Cynnal a chadw

- 4.2.1 Cyflwynir trefniadau a rhaglen waith ar gyfer cynnal a chadw elfennau allweddol harbwr Aberdyfi gan yr Harbwr Feistr yn y cyfarfod.
- 4.2.2 Bydd yr Harbwr Feistr yn cyflwyno rhaglen waith cynnal a chadw a fu i'w gweithredu yn Harbwr Abermaw yn ystod y cyfnod Hydref - Rhagfyr 2016 ac yn rhoi amlinell o'r rhaglen waith a fu i'w gweithredu yn y cyfnod Ionawr - Mawrth 2017. Gofynnir am adborth aelodau'r Pwyllgor am unrhyw waith ychwanegol bydd angen ei ystyried a'i gynnwys ar y rhaglen waith.

4.3 Materion Staff

- 4.3.1 Mae cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi (tymhorol) wedi dod i ben ers y 30ain Medi 2016. Er sicrhau cefnogaeth a pharhad i'r gwasanaeth ar draws y sir mae cyfnod cyflogaeth Cymhorthion Harbwr Aberdyfi ac Abermaw wedi eu hymestyn hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2016.
- 4.3.2 Fe fydd y ddau gymhorthydd harbwr yn rhan o'r tîm Morwrol ehangach er sicrhau bod yn bosibl ymateb i ddigwyddiadau a chwblhau rhaglen waith cynnal a chadw harbyrau Aberdyfi, Porthmadog ac Abermaw dros fisoedd y gaeaf.
- 4.3.3 Er hwyluso gallu'r Gwasanaeth i ymateb i faterion sydd yn codi mae lleoliad gwaith Cymhorthydd Harbwr Abermaw wedi ei ail leoli i Borthmadog am y cyfnod cychwynnol er sicrhau cymorth ychwanegol ym Mhorthmadog dros y cyfnod cychwynnol.
- 4.3.4 Fe fydd angen bod staff Aberdyfi yn cynorthwyo gyda gwaith yn Harbwr Abermaw yn ystod y misoedd nesaf.
- 4.3.5 Fel y bu wedi ei adrodd arno yn y Pwyllgor Harbwr ym mis Mawrth 2016 nid oedd Goruchwyliwr Traeth wedi ei benodi yn Aberdyfi yn 2016. Oherwydd toriad yng nghyllideb y Gwasanaeth ni ragwelir bydd Cymhorthydd Traeth yn cael ei benodi yn Aberdyfi at y dyfodol. Golygai hyn na fydd Gwobr Traeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer Traeth Aberdyfi yn y dyfodol.

- 4.4 Fe fydd y Dwr Ymdrochi yn parhau i gael ei fonitro yn rheolaidd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac fel rhan o gynllun ehangach mae Dwr Ymdrochi 'Traeth y Fynwent' hefyd yn cael ei brofi gan Gyfoeth Naturiol Cymru.
- 4.5 **Materion Eraill**
- 4.5.1 **Offer a Chelfi Pysgotwyr.** Mae'r Gwasanaeth wedi datgan pryder ynglyn â cawelli, rhaffau ac offer pysgota sydd yn cael ei gadw ar ochr y cei ac ar y lanfa yn enwedig yn ystod tymor yr haf. Yn anffodus nid yw'r offer a chelfi yn cael ei gadw yn daclus ac mae hyn yn achosi risg.
- 4.5.2 **Wal y Cei.** Fe fydd diweddariad ynglyn a cynlluniau a datblygiadau diweddaraf ynglyn a wal y cei yn cael ei gyflwyno i Aelodau yn y cyfarfod.
- 4.5.3 Mae gofyn bod y pysgotwyr sydd yn storio offer ar y cei sicrhau fod yr offer yn ddiogel ac na fod yn achosi unrhyw risg i ddefnyddwyr eraill yr Harbwr. Wrth gydnabod pwysigrwydd y gwaith y pysgotwyr mae yn angenrheidiol cadw trefn ar yr offer. I'r perwyl hwn, mae'r pysgotwyr wedi derbyn arweiniad gan y Gwasanaeth bod angen i bob rhaff gael ei gadw mewn blwch pwrpasol ac na fod yna unrhyw offer yn rhwystro mynediad at wal y cei neu at offer achub bywyd.
- 4.5.4 **Gorsaf y Bad Achub.** Mae gwaith ymestyn gorsaf y Bad Achub yn Aberdyfi bellach wedi ei gwblhau. Fel rhan o'r gwaith fe gafodd tir cyfagos ei ail wynebu ac mae'r gwaith wedi gwella delwedd yr ardal yn sylweddol.
- 4.5.5 **Tir Comin-Ystorfa. Gwastraff.** Mae pryder fod gwaredu anghyfreithlon ar dir dan gyfrifoldeb y Cyngor ger y Clwb Golff yn parhau. Yn ddiweddar fe waredwyd gwastraff swmpus yn anghyfreithlon ger ffens y compownd. Mae'r Gwasanaeth yn anelu at gomisiynu contractwr i ymgymryd â gwaith clirio'r gwastraff ac yn anelu i fod wedi cwblhau'r gwaith cyn diwedd mis Mawrth 2017. Yn anffodus mae gwastraff math 'asbestos' wedi ei waredu ar y tir sydd yn golygu costau uchel i glirio'r safle.
- 4.5.6 Mae yn allweddol bwysig fod unigolion sydd ag offer pysgota ar y safle yn sicrhau fod eu holl offer yn daclus ac wedi ei storio yn gywir. Bydd unrhyw offer pysgota yn cael ei waredu pe bydd y Gwasanaeth o'r farn na fod yr offer wedi ei storio yn gywir a phe na fod defnydd i'r offer. Pwysleisir fod cynrychiolwr y Gymdeithas Bysgota yn sicrhau fod yna neges glir ynglŷn â'r bwriad yn cael ei gyflwyno i'r pysgotwyr heb oedi.
- 4.5.7 Unwaith bydd y gwaith wedi ei gwblhau fe fydd y Gwasanaeth yn trefnu i osod ffens ddiogelwch ar y safle er gwahardd mynediad i rai heb awdurdod.
- 4.5.8 **Ymgynghoriad Gwylwyr y Glannau.** Mae'r llywodraeth yn ymgynghori ar newid bosibl mewn deddfwriaeth Gwastraff Porthladdoedd ac mae cyfle i Aelodau gyflwyno sylwadau ar y newidiadau arfaethedig. Mae'r newidiadau yn diddymu MGN 253,259 ac 326. Tra bod newid yn y ddeddfwriaeth ni fydd hyn cael effaith ar Gynllun Darpariaeth Gwastraff Harbyrau yng Ngwynedd. Deallir bydd y newid yn y ddeddfwriaeth yn dod i rym ar y 9fed Rhagfyr 2016.

Mae'r holl ddogfennau ar gael ar y safle we isod.

<https://www.gov.uk/government/consultations/implementation-of-directive-20152087-by-means-of-the-merchant-shipping-and-fishing-vessels-port-waste-reception-facilities-amendment-regulations>

5. Materion Ariannol

- 5.1 Mae crynodeb o gyllideb yr Harbwr yn adrodd ar y sefyllfa ariannol gyfredol yn atodol.
- 5.2 Yn ystod y cyfnod, bu'n ofynnol i ymrwymo adnodd cyllid ar gyfer y canlynol: -

- Cynnal a chadw a pwrcasu Cymhorthion Mordwyo a Llusernau
- Cynnal a chadw angorfeydd y Cyngor.
- Ymestyn cyfnod cyflogaeth staff.
- Cynnal a chadw tiroedd.
- Peiriannau newydd Cwch Patrol Harbwr Aberdyfi (prosiect cyn Mawrth 2017)

5.3 Mae'r cyllidebau yn cael eu monitro yn fisol ac mae Adolygiad Ail Chwarter wedi ei gynnal yn ystod yr wythnos cyntaf ym mis Hydref. Mae'r atodiad yn adlewyrchiad o'r adolygiad 2il Chwarter.

5.4 **Ffioedd a Thaliadau 2017/18.** Atodir taenlen ffioedd arfaethedig Harbwr Aberdyfi 2017. Rhagwelir bydd chwyddiant Harbyrau ar gyfer 2017/18 yn 1.85%. Er cwrdd â her cyllideb a tharged incwm y gwasanaeth awgrymir fod ffioedd Harbwr Aberdyfi yn cynyddu 2% ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18.

5.5 Pwysleisir mai drafft yn unig sydd wedi ei gyflwyno ger bron Aelodau ac mae'r ffioedd yn ddarostyngedig ar dderbyn cadarnhad gan yr Arweinydd Portffolio yn fuan yn 2017.

6. Digwyddiadau

6.1 Cynhaliwyd y digwyddiadau canlynol yn Harbwr Aberdyfi yn 2016: -

- Digwyddiad Gwyl Fwyd Aberdyfi a gynhaliwyd ar y 29ain Awst 2016. Mawr obeithir bydd yr wyl yn parhau ac yn cael ei gynnal unwaith yn rhagor yn 2017.
- Digwyddiadau blynyddol Clwb Hwyllo Dyfi. Nifer ddigwyddiadau drwy'r tymor.
- Digwyddiadau Clwb Rhwyfo Dyfi. Regata Clwb Rhwyfo ar ddiwedd mis Mai.
- Digwyddiad Gwyl Banc Awst (Dyfi Fest) a drefnwyd gan grwp cymunedol.